Cyngor Cymuned Llangwyryfon Ebrill 19 2018

Presennol : Fred Jones, Islwyn Jones, Dylan Davies, Morgan Morgan, Lyn Davies, Rowland Rees Evans a'r clerc

Ymddiheuriad: Huw Griffith

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Mis Mawrth ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi
Wal yr ysgol. Adroddwyd bod y brifathrawes wedi cysylltu â'r adeiladwyr.

Gohebiaeth
Ymgynghoriad Cynllunio Tanrallt. Dim sylwadau na gwrthwynebiad. Yr ateb i'w anfon trwy ebost.
Derbyniwyd gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu mis Ebrill; Gwahoddiad i wneud sylwadau ar y Strategaeth Tai; Ymgynghoriad ar wasanaethau gofal iechyd; Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud astudiaeth o pa mor dda mae awdurdodau lleol yn cefnogi a chydweithredu â Chynghorau Tref a Chymuned; Lansio ymgynghoriad ar Gryfhau Llywodraeth Leol; Age Cymru yn cynnig help ariannol ar gyfer gweithgareddau i leddfu unigedd ac unigrwydd; Ymgynghoriad gan Cadw ar yr Amgylchedd Hanesyddol.

Cadarnhad wrth Un Llais Cymru ein bod wedi talu tâl aelodaeth ac yn gofyn am enwau cynrychiolwyr yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ardal. Ni wnaeth neb gynnig ei hun.

Adroddwyd bod y Llywodraeth yn ystyried problem gwastraff plastig trwy newid system trethi neu math arall o dâl, i leihau'r gwastraff. Maent yn casglu gwybodaeth ar hyn o bryd.

Darllenwyd llythr o'r Cyngor Sir am y problemau a achosir gan berchnogion cŵn anghyfrifol. Cytunwyd â'r syniad o gofrestru cŵn ond ei gweld hi'n anodd i sicrhau bod perchnogion anghyfrifol yn gwneud hynny.

Materion ariannol

Yswiriant. Zurich yn gofyn a oes angen quote. Heb glywed wrth y cwmni newydd BHIB eto. Mae'r cytundeb 3 blynedd yn dod i ben eleni. (1af Mehefin) Gofynnwyd i'r clerc geisio quote oddi wrth Zurich.

Dosbarthwyd copiau o'r cyfrifon a chytuno eu bod yn gywir

Derbyniwyd ffurflenni oddi wrth yr Archwiliwr allanol ac angen nifer o bethau ychwanegol gwahanol eleni e.e. llun o'r hysbysfwrdd yn dangos bod hysbysiad hawliau etholwyr yn cael ei arddangos, cadarnhad o nifer etholwyr lleol, a chopi o dudalennau'r llyfr cyfrifon.

Danfonwyd am ad-daliad TAW - £13.20. ond methu bod yn siwr bod y cais wedi ei dderbyn.

Awdurdodwyd talu trydan £41.83, a'r clerc £200 ddiwedd y mis. Ar ôl talu'r rhain fe fydd £289.24 ar ôl onibai bod rhan o'r praesept wedi cyrraedd cyn i daliad y clerc fynd allan. Dim gwybodaeth am y praesept hyd yma.

Y gyfriflen ddiweddaraf yn dangos bod tair siec o gyfrif rhif 2 heb eu talu i mewn eto. Ar ôl cysylltu, mae'r cffi a'r eglwys newydd eu talu i mewn. Canolfan Bethel yn methu gwneud nes derbyn rhif elusen.

Unrhyw fater arall

Cofrestr asedau. Edrychwyd yn fanwl ar y gofrestr a gweld bod angen ei diweddaru. Gofynwyd i'r clerc ofyn i'r Cyngor Sir pwy sy'n gyfrifol am y polion trydan.

Edrychwyd ar bamffledyn am Arwydd Cyflymder Radar a gofyn i'r clerc gael rhagor o wybodaeth.

Dyddiad y cyfarfod nesaf sef y Cyfarfod Blynyddol Mai 17 2018